

**national
museum
wales
amgueddfa
cymru**

**COD YMARFER AR GYFER YMCHWIL
FOESEGOL
AMGUEDDFA CYMRU**

Cyflwyniad ¹

Caiff gwaith ymchwil yn Amgueddfa Cymru ei lywio gan ein gweledigaeth, ein diben a'n cyfrifoldebau fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac fel elusen gofrestrdedig a chanddi Siarter Frenhinol. Cawn ein cydnabod gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) fel Sefydliad Ymchwil Annibynnol (IRO) ar sail yr ymchwil a wnawn a safon y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwnnw.

Amgueddfa Cymru yw corff cenedlaethol Cymru ar gyfer amgueddfeydd. Yn hynny o beth, mae gennym ddyletswydd statudol ar ran y genedl, a sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol adeg ein sefydlu ym 1907 ac a ailddatganwyd drwy'r Siarter Frenhinol (diwygiwyd 2006), i addysgu'r cyhoedd. Rydym yn cyflawni hyn drwy ein gweledigaeth - Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau - a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2017. Mae ymchwil yn Amgueddfa Cymru yn cyflawni'r weledigaeth ac yn sail i'r weledigaeth honno, yn ogystal â chyflawni dyletswydd statudol ein Siarter Frenhinol drwy'r Gwrthrychau.

Ein diben, i gefnogi'r weledigaeth hon, yw: ysbrydoli pobl drwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau i ganfod ymdeimlad o les a hunaniaeth, i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog ac i ddeall lle Cymru yn y byd ehangach.

I gefnogi'r weledigaeth, mae ein holl waith ymchwil yn anelu at sicrhau'r lefelau uchaf o uniondeb a moeseg. Mae ein staff yn elwa o weithio mewn diwylliant ymchwil sydd â safonau uchel o ran uniondeb a moeseg wrth ei wraidd. Mae'n bwysig bod y safonau hyn yn cael eu mynegi'n glir mewn modd tryloyw a chlir, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall a'u cymhwyso gan ein staff ein hunain a chan eraill sy'n gwneud gwaith ymchwil gyda ni neu'n defnyddio ein hadnoddau. Mae gweithdrefnau priodol a theg ar gyfer sicrhau ymddygiad ymchwil moesegol yn ategu'r egwyddorion hyn. Mae'n bwysig bod yr egwyddorion a'r gweithdrefnau hyn yn cydymffurfio â normau derbyniol ym maes ymchwil a ariennir yn gyhoeddus². Pwrpas y Cod Ymarfer hwn yw nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau hyn a sicrhau bod pawb sy'n gwneud gwaith ymchwil yn Amgueddfa Cymru neu gydag Amgueddfa Cymru yn eu deall ac yn cadw atynt.

Mae'n ofynnol i sefydliadau ymchwil sy'n derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer ymchwil ddangos ymrwymiad i egwyddorion ymddygiad ymchwil da, fel y nodir gan UKRI³. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ymchwil sefydlu polisïau a chanllawiau clir ar yr hyn sy'n dderbyniol ac nad yw'n dderbyniol o ran ymddygiad ymchwil, a rhoi trefniadau clir ar waith ar gyfer goruchwyllo a rheoli ymddygiad

¹ Daw rhannau o'r ddogfen hon o God Ymarfer Uniondeb Ymchwil a Llywodraethu Prifysgol Caerdydd, ac rydym yn ddiolchgar i'r Brifysgol am ganiatâd i ddefnyddio'r ddogfen hon.

² Caiff y normau hyn eu hamlinellu yn Concordat y DU i Gefnogi Uniondeb Ymchwil (2012). Mae'r concordat yn amlinellu pum ymrwymiad pwysig y gall y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil eu gwneud i helpu i sicrhau bod safonau trylwyrdd ac uniondeb o'r radd uchaf yn cael eu cynnal.

³ Gweler UKRI (2013) Polisi a Chanllawiau RCUK ar Lywodraethu Ymddygiad Ymchwil Da, a ddiweddarwyd yn 2017. <https://www.ukri.org/files/legacy/reviews/grc/rcuk-grp-policy-and-guidelines-updated-apr-17-2-pdf/> (cyrchwyd 10/10/2018).

ymchwil, uniondeb a materion moesegol, ac i unigolion adrodd ar unrhyw bryderon am arferion gwael yn y meysydd hyn. Byddwn yn darparu hyfforddiant a datblygiad, ac yn monitro'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei gynnal, er mwyn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu cyflawni. Caiff y polisïau, y canllawiau a'r trefniadau hyn eu hadlewyrchu yn y Cod Ymarfer hwn. Hyd yn oed lle nad yw ymchwil yn denu unrhyw gyllid, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, rhaid iddo gadw ym mhob ffordd at yr egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodir yma.

Cyfrifoldeb yr holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol yw sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Cod Ymarfer hwn a'u bod yn cadw ato. Darllenwch ef yn ofalus, ymwelwch â'r gwefannau y mae'n cyfeirio atynt a helpwch ni i barhau i gynnal gwaith ymchwil gydag uniondeb a rhagoriaeth.

1. Cod Ymarfer ar gyfer Ymchwil Foesegol - Egwyddorion Allweddol

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cwmpasu'r **yr holl** ymchwil a wneir gan staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol yn Amgueddfa Cymru, neu waith ymchwil sy'n defnyddio ein hadnoddau. Drwy ymgymryd ag ymchwil o'r fath, rydych yn ymrwymo i'r Cod Ymarfer hwn. Rydych hefyd yn cymryd cyfrifoldeb llawn am broffesiynoldeb ac uniondeb pob agwedd ar eich ymchwil, ac am weithgareddau unrhyw staff, myfyrwyr neu ymchwilwyr allanol o dan eich cyfarwyddyd.

I grynhoi, mae hyn yn golygu:

- sicrhau bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal yn foesegol, yn unol â'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodir yn y Cod Ymarfer hwn
- adrodd ar achosion o wrthdaro buddiannau, boed yn achosion gwirioneddol neu'n achosion posibl, neu achosion o gamymddwyn a amheuir, gan ddefnyddio'r sianeli priodol (gweler Adran 6.5)
- sicrhau lles corfforol ac emosiynol a diogelwch y rhai sy'n gysylltiedig â'r ymchwil
- sicrhau uniondeb rheolaeth ariannol y project ymchwil
- gwneud eich gorau i sicrhau bod yr ymchwil yn cyflawni'r budd cyhoeddus llawn sy'n ofynnol o ran yr arian a'r adnoddau a fuddsoddir ynddo
- cadw at yr holl ofynion cyfreithiol, moesegol a gofynion eraill a nodir mewn polisïau a gweithdrefnau.

1.1 Diffiniadau - uniondeb, moeseg a chysylltiadau ymchwil

Mae angen ystyried pob agwedd ar ymddygiad ymchwil da. Mae egwyddorion ac ymrwymadau cyffredinol ynghlwm wrth **uniondeb** sy'n sicrhau bod canfyddiadau ymchwil yn gadarn ac yn amddiffynadwy, gan gynnwys dyluniad a fframweithiau ymchwil priodol, yn ogystal â **didwylledd**, **atebolrwydd**, **trylwyredd**, **gofal a pharch**. Mae **moeseg** ymchwil yn cyfeirio at ymddygiad ymchwilwyr tuag at y bobl ddynol fyw hynny sy'n darparu data ar gyfer yr ymchwil ('cyfranogwyr ymchwil'), yn ogystal â sefydliadau allanol y mae eu gwaith yn destun i'r ymchwil. Mae'r Cod

Ymarfer hwn yn hyrwyddo safonau uchel o uniondeb a moeseg ar bob cam o broiect ymchwil, yn cynorthwyo staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol i fodloni gofynion cyfreithiol a moesegol ac yn helpu i atal camymddwyn, boed drwy gamgymeriad dynol neu achos o gamymddwyn.

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i bob maes pwnc ac i bob aelod o staff sy'n ymwneud ag ymchwil, gan gynnwys staff sy'n gwneud gwaith ymchwil y tu allan i Amgueddfa Cymru ond fel rhan o'u gwaith i Amgueddfa Cymru, yn ogystal ag unrhyw un nad yw'n gyflogedig gan Amgueddfa Cymru ond sydd â chaniatâd i wneud gwaith ymchwil gydag Amgueddfa Cymru, gan gynnwys myfyrwyr sy'n gwneud gwaith ymchwil yma ac ymchwilwyr allanol a gyflogir yn rhywle arall (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel **staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol**).

1.2 Ymchwilwyr allanol a'u perthynas ag Amgueddfa Cymru

Mae angen i bob ymchwilydd sy'n defnyddio ein hadnoddau ni, ac adnoddau sefydliadau eraill sy'n rhan o'r ymchwil, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi gennym ai peidio, gadw at y Cod Ymarfer hwn. Yn ogystal, mae gan ymchwilwyr allanol nad ydynt yn cael eu cyflogi gan Amgueddfa Cymru, y mae gennym berthynas ymchwil gydweithredol â hwy a gytunwyd ar y cyd ac y gallwn roi mynediad breintiedig iddynt i ddata sydd fel arall yn gyfrinachol, gyfrifoldeb i gael ein cytundeb ysgrifenedig o ran lledaenu a chyhoeddi canfyddiadau ymchwil, a pherchnogaeth o eiddo deallusol. Dylai'r holl bartïon perthnasol drafod a chytuno ar y rhain cyn i'r ymchwil gychwyn a dylid eu cofnodi ar ffurf Protocol Ymchwil, a'u monitro, ac os bydd angen dylid eu hadolygu, ar yr un sail wrth i'r gwaith ymchwil fynd rhagddo, yn unol â'r egwyddorion canlynol:

Protocol Ymchwil

Dylid cytuno ar Brotocol ysgrifenedig rhwng Amgueddfa Cymru a staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol cyn cynnal unrhyw waith ymchwil. Dylid cynnwys y canlynol:

Egluro rolau, hawliau a rhwymedigaethau.

Dylai'r Protocol egluro rolau, hawliau a rhwymedigaethau priodol yr holl bartïon perthnasol (gan gynnwys unrhyw noddwr, cyllidwr neu sefydliad, cyflogwr ac ymchwilydd arall). Yn arbennig:

- Dylid cytuno ar bwynt cyswllt, a enwebir gan y Pennaeth Ymchwil, a threfnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd.
- Lle mae'n ymddangos bod achos o wrthdaro buddiannau yn bosibl, dylid trafod y rhain gyda Phennaeth/Penaethiaid Adran, aelodau staff a/neu'r Pennaeth Ymchwil perthnasol, a chytuno ar broses ar gyfer datrys y broblem.

Rhwymedigaethau ymchwilwyr allanol i Amgueddfa Cymru.

Dylai ymchwilwyr allanol gydnabod eu rhwymedigaethau cyffredinol a phenodol i Amgueddfa Cymru, yn ogystal ag i'w cyflogwyr neu'u noddwyr eu hunain, lle bo hynny'n berthnasol. Oni nodir yn benodol fel arall, bydd y rhwymedigaethau yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i staff. Yn arbennig:

- Dylent fod yn onest am eu cymwysterau a'u harbenigedd, ynghylch cyfyngiadau, manteision ac anfanteision eu dulliau a'u data.
- Ni ddylent guddio ffactorau personol neu ffactorau eraill a allai effeithio ar ymddygiad boddhaol neu'r gallu i gwblhau'r project neu'r contract ymchwil arfaethedig.

- Dylai Amgueddfa Cymru a noddwyr, sefydliadau partner neu gyflogwyr eraill gytuno ar unrhyw ddefnydd o wybodaeth gyfrinachol fel y bo'n briodol.
- Pan fo mynediad ymchwil i bobl fyw yn cael ei reoli gan 'borthgeidwad' cenedlaethol neu leol, ni ddylai ymchwilwyr ddatganoli eu cyfrifoldebau moesegol i'r porthgeidwad. Dylai ymchwilwyr gadw at yr egwyddorion a'r gweithdrefnau a gynhwysir yn y Cod Ymarfer hwn, fel y nodir isod (h.y. cael cydsyniad ar sail gwybodaeth yn uniongyrchol gan gyfranogwyr ymchwil ar ôl cael mynediad).
- Bydd yr holl ymchwilwyr, boed yn staff, myfyrwyr neu'n ymchwilwyr allanol, yn cadw at bolisiau a gweithdrefnau perthnasol.
- Tybir bod pob hawl, gan gynnwys hawliau eiddo deallusol, sy'n ymwneud â phrojectau ymchwil sy'n defnyddio'r casgliadau, asedau deallusol ac adnoddau eraill, yn perthyn i Amgueddfa Cymru, oni chytunir yn benodol yn ysgrifenedig gan y Pennaeth Ymchwil, a Phenaethiaid Adran perthnasol, cyn i'r project ddechrau.

Ein rhwymedigaethau ni i ymchwilwyr allanol.

Dylai pob parti sicrhau ei fod yn egluro, cyn llofnodi contractau neu ddechrau eu hymchwil, faterion sy'n ymwneud â'u maes proffesiynol.

- Mae gan ymchwilwyr allanol hawl i ofyn am ddatgeliad llawn o ffynonellau arian, personél a nodau Amgueddfa Cymru lle y cytunir bod hyn yn hanfodol at ddiben(ion) y project ymchwil a lledaenu canlyniadau ymchwil, ac nad yw'n gwrthdaro â'n polisiau, ein cyfrifoldebau moesegol a'n buddiannau masnachol; yn yr un modd, mae gennym hawl i'r un datgeliadau ar ran yr ymchwilwyr a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi neu'n eu cymeradwyo.
- Mae ganddynt hawl i ddisgwyl parch at eu harbenigedd proffesiynol ac at uniondeb y data; yn yr un modd, mae gennym hawl i'r un parch.
- Dylai'r Protocol roi sylw arbennig i faterion megis: galluedd pob parti i amddiffyn hawliau a buddiannau cyfranogwyr ymchwil (unigolion a sefydliadau), a'u hawliau mewn perthynas â'r data a gesglir, cyhoeddiadau, eiddo deallusol a breindaliadau. Cyfeiriwch at Adran 7 i weld y drafodaeth am eiddo deallusol.

1.3 Ymchwil ar neu am Amgueddfa Cymru a/neu sefydliadau eraill

Yn ychwanegol at y rhwymedigaethau a nodwyd uchod, dylai'r holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sy'n ymgymryd ag ymchwil ar neu am Amgueddfa Cymru neu sefydliadau eraill, gan gynnwys partneriaid a chyllidwyr, yn ogystal â phartneriaid masnachol a llywodraeth, fel pwnc neu destun ymchwil, sydd naill ai'n cynnwys y sefydliad cyfan neu ran ohono (e.e. un o'n hadrannau, amgueddfeydd neu swyddogaethau) hefyd fynd i'r afael ag unrhyw faterion gwirioneddol neu bosibl yn ymwneud â niwed, anhysbysrwydd neu gyfrinachedd a allai effeithio ar Amgueddfa Cymru neu'r sefydliadau eraill yn eu cyfanrwydd neu'n rhannol, yn ychwanegol at yr effeithiau ar gyfranogwyr unigol yn yr ymchwil, a dylid datrys y materion hynny drwy sicrhau ein cytundeb ar yr un pryd.

Mae hyn yn awgrymu dyletswydd ychwanegol o ofal moesegol tuag at y sefydliad, os yw'n destun ymchwil. Mae hyn oherwydd bod gan staff (cyflogedig neu wirfoddolwyr) sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil o'r fath gyfrifoldebau i Amgueddfa Cymru a sefydliadau eraill, ac yn aml mae ganddynt wybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â'u rôl. Mae'n dilyn y dylai'r un ddyletswydd o ymddiriedaeth a gofal lywodraethu perthynas yr ymchwilydd ag Amgueddfa Cymru. Mae hyn hefyd yn wir lle mae'r ymchwil yn cynnwys sefydliadau partner y mae gennym berthynas â hwy yn seiliedig ar ymddiriedaeth a gofal, gan gynnwys partneriaid cymunedol (e.e. Rhwydwaith Wallich, Oasis, Rhwydwaith Hanes Pobl Dduon Cymru) yn ogystal â chyllidwyr a phartneriaid proffesiynol. Er nad yw'n bosibl rhagnodi camau gweithredu pendant ymlaen llaw, o ystyried yr amrywiaeth o broiectau y gellir eu cynnal, mae angen datblygu ymwybyddiaeth o'r gwrthdaro a'r cymhlethdodau posibl ar bob ochr cyn i'r gwaith ymchwil ddechrau, a rhaid i ni ddarparu cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn i'r gwaith ymchwil ddechrau.

- Bydd angen cytundeb y Pennaeth Ymchwil a Phenaethiaid Adran perthnasol ar bob ymchwilydd sy'n bwriadu ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n cynnwys sefydliadau allanol o bob math.
- Bydd angen i'r Pennaeth Ymchwil a Phenaethiaid Adran a/neu sefydliadau partner sy'n ymwneud â'r ymchwil gwrdd â'r ymchwilydd/ymchwilyddwyr i drafod eu dull a'u cwestiynau ymchwil, a chael eu cymeradwyaeth, cyn i unrhyw waith ymchwil ddechrau.
- Rhaid i bob ochr fyfyrto gyda'i gilydd ar oblygiadau moesegol tebygol y project ymchwil, yn enwedig o ran materion cyfrinachedd staff/sefydliadau partner, anhysbysrwydd ac unrhyw risg o niwed i Amgueddfa Cymru a/neu bartneriaid.
- Rhaid dod i gytundeb ar sut yr ymdrinnir â'r materion hyn, cyn i'r gwaith ymchwil ddechrau. Wrth i'r broses ymchwil esblygu, mae'n debygol y bydd angen adolygiadau rheolaidd pellach.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r project ymchwil gael ei gyd-ddylunio a'i gyd-gynhyrchu fel bod yr holl bartion, o fewn Amgueddfa Cymru a'r tu allan iddi, yn chwarae rôl gyfartal wrth lunio, dylunio a chymryd rhan ynddo, ac wrth gyd-gynhyrchu'r canfyddiadau a'r allbynnau.
- Dylid llunio cytundeb, neu Brotoocol, moesegol fel y nodir yn 1.2 uchod, a fydd yn cwmpasu'r ystyriaethau a amlinellir uchod ynghyd ag unrhyw eiriad ychwanegol y cytunir arno drwy gytundeb.

1.4 Ffynonellau data mewn gwaith ymchwil

Yn draddodiadol, mae ymchwil mewn amgueddfeydd wedi'i chyfeirio at ymholi ac ysgolheictod sy'n canolbwyntio ar wrthrychau. I'r graddau y mae hyn yn wir, mae angen ethos o ofal, hygyrchedd a dehongliad priodol ar wrthrychau a sbesimenau. Gall ymchwil hefyd gynnwys gweddillion dynol, ac mae'r rhain yn gofyn am driniaeth foesegol benodol. Rydym hefyd yn ymgymryd yn gynyddol â gwaith ymchwil sy'n cynnwys pobl a sefydliadau byw fel cyfranogwyr (a elwir yn aml yn 'ymchwil pynciau dynol'), lle ceir materion moesegol ychwanegol. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cwmpasu'r tair ffynhonnell ddata: **gwrthrychau a sbesimenau**, **gweddillion dynol** a **phersonau byw**. Ym mhob ymchwil sy'n cynnwys data a gasglwyd gan fodau dynol, byw neu farw, rhaid ceisio cymeradwyaeth ychwanegol ar gyfer cynnal gwaith ymchwil, fel y nodir yn y Weithdrefn Adolygu Moesegol isod.

1.4.1 Ymchwil gyda gwrthrychau a sbesimenau

Rhaid trin yr holl wrthrychau a sbesimenau a ddefnyddir ac a gafaelwyd at ddibenion ymchwil yn ofalus gan ddangos pryder am eu huniondeb, gan adlewyrchu egwyddor Cymdeithas yr Amgueddfeydd y dylai amgueddfeydd gadw casgliadau fel cyswllt diriaethol rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol a chydbwyso rôl yr amgueddfa o ran diogelu eitemau er budd cynulleidfaoedd y dyfodol gyda'i rhwymedigaeth i gynyddu mynediad i gynulleidfaoedd presennol i'r eithaf.

Rhaid i bawb sy'n defnyddio'r gwrthrychau a'r sbesimenau yn y casgliadau at ddibenion ymchwil sicrhau bod y gweithdrefnau ymchwil a ddefnyddir yn osgoi achosi niwed neu ddifrod a fyddai'n niweidio eu defnydd yn y dyfodol ar gyfer ymchwilwyr, cynulleidfaoedd a defnyddwyr eraill. Derbynnir bod yn rhaid i'r egwyddor hon adlewyrchu'r cydbwysedd sydd ei angen rhwng y ddyletswydd i warchod gwrthrychau a sbesimenau yn gyfan ac yn eu cyfanrwydd fel y'u derbyniwyd i'r casgliadau, a'r angen i gynnal ymchwil a allai gynnwys gweithdrefn samplu dderbyniol. Mae gennym gyfres o bolisiâu sy'n gysylltiedig â chasgliadau sy'n llywodraethu'r gwaith o ddefnyddio a gofalu am y casgliadau (gweler isod) a **dylai pob defnydd o'r casgliadau at ddibenion ymchwil ddilyn y rhain yn llawn.**

1.4.2 Ymchwil sy'n ymwneud â gweddillion dynol

Mae ymchwil sy'n cynnwys gweddillion dynol yn cael ei llywodraethu gan y Polisi Gweddillion Dynol (2016). Mae hwn yn nodi bod gweddillion dynol ar un adeg yn rhan o bobl fyw ac yn unol â hynny bydd angen gofalu amdanynt mewn modd diwylliannol barchus. Mae'r polisi hwn yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf Meinweoedd Dynol (2004⁴); mae hefyd yn adlewyrchu'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yng nghanllawiau gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd (Guidance for Care of Human Remains in Museums) a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS: 2005). Rhaid i'r holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sy'n defnyddio gweddillion dynol gydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion moesegol a amlinellir yn y ddogfen honno, sef:

- Anfaleisdra - gwneud dim niwed.
- Parch at amrywiaeth cred - parch at gredoau ac agweddau crefyddol, ysbrydol a diwylliannol amrywiol ac agweddau tuag at weddillion; goddefgarwch.
- Parch at werth gwyddoniaeth - parch at werth gwyddonol gweddillion dynol ac at fuddion posibl ymholiad gwyddonol i ddynoliaeth.
- Undod - hyrwyddo dynoliaeth drwy gydweithrediad a chonsensws mewn perthynas â gweddillion dynol.
- Buddioldra - *gwneud daioni, gan ddarparu buddion i unigolion, cymunedau neu'r cyhoedd yn gyffredinol.*

1.4.3 Ymchwil gan ddefnyddio data gan neu am bobl fyw a sefydliadau ('pynciau dynol' neu 'gyfranogwyr ymchwil') gan

⁴ Gweler <https://www.hta.gov.uk/policies/human-tissue-act-2004> (cyrchwyd 02/08/2017).

gynnwys Amgueddfa Cymru, partneriaid neu sefydliadau cysylltiedig

Mae'n hollbwysig yn gyfreithiol ac yn foesegol bod yr holl ddata a geir gan neu am bobl fyw yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol a'u storio'n ddiogel. Rhaid i'r holl ddata personol (h.y. data sy'n galluogi person byw i gael ei adnabod) fod yn ddienw. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i waith ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunyddiau dynol neu ddata dynol, yn ogystal ag Amgueddfa Cymru a sefydliadau eraill, gael ei adolygu yn unol â gweithdrefnau'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil, fel isod, oni bai:

- bod yn rhaid i'r gwaith ymchwil gael ei adolygu gan bwyllgor moeseg allanol gorfodol e.e. ymchwil y GIG neu ymchwil gydag anifeiliaid byw
- bod yr ymchwil yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn gyfreithlon yn unig e.e. data cyfrifiad, data llywodraeth gyhoeddus a gwybodaeth a gedwir mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth o fethodolegau ymchwil a ddefnyddir yn y disgyblaethau a gynrychiolir a bod materion ac arferion moesegol hefyd yn amrywio o fewn cyd-destunau methodolegol a disgyblu. Ym mhob disgyblaeth ymchwil mae'n rhaid bod sail gyfreithlon o dan y Ddeddf Diogelu Data (Deddf 1998, "y Ddeddf") dros gynhyrchu gwybodaeth a allai nodi cyfranogwyr dynol adnabyddadwy byw, gan gynnwys sefydliadau, mewn ymchwil (a elwir yn '**data personol**'). Os nad oes modd adnabod unigolion a sefydliadau, nid yw'r Ddeddf yn berthnasol. Dim ond lle ceir data personol drwy ddefnyddio **cydsyniad dilys ac ar sail gwybodaeth** y bydd y sail dros ei gasglu yn cael ei hystyried yn gyfreithlon o dan y Ddeddf. Mae 'cydsyniad dilys' yn golygu bod yn rhaid iddo gael ei roi ar sail gwybodaeth lawn (h.y. mae'r person sy'n rhoi caniatâd yn deall yn iawn beth yw pwrpas yr ymchwil, ar gyfer beth y bydd ei ddata'n cael eu defnyddio a sut y byddant yn cael eu defnyddio) a'i roi drwy ewyllys rydd (rhaid i gydsyniad fod yn wirfoddol ac ni ddylid cael ei orfodi chwaith, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol). Darperir diffiniad o gydsyniad ewyllys rydd ac ar sail gwybodaeth yn yr atodiad i'r Ffurflen Cymeradwyo Moeseg Ymchwil, sydd ar gael ar y Fewnrwyd ac sydd wedi'i hatgynhyrchu yn Atodiad 2.

Dylid bod yn ofalus wrth wneud ymchwil gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, e.e. y rhai sy'n agored i niwed oherwydd anableddau corfforol neu feddyliol. Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol gydymffurfio â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ym mhob achos lle mae'n bosibl na fydd gan gyfranogwyr ymchwil allu neu lle gallant golli eu gallu i roi cydsyniad dilys yn ystod yr astudiaeth. Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol hefyd fod yn gyfarwydd â'n **Polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed**. Lle bo hynny'n briodol, rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau ychwanegol megis sicrhau cliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan Arweinydd y Project/ y Prif Ymchwilydd gyfrifoldeb i benderfynu (gyda'r Adran Adnoddau Dynol) a oes angen y gwiriadau hyn ar gyfer yr holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sydd o dan eu goruchwyliaeth/rheolaeth ac yna i sicrhau bod yr unigolion hyn yn cael eu fetio a'u hyfforddi'n ddigonol.

1.5 Gweithdrefn adolygu moesegol ar gyfer ymchwil

Yn ogystal â'r Cod Ymarfer hwn, mae gennym weithdrefn ffurfiol ar gyfer cael **cydsyniad moesegol i ymgymryd â gwaith ymchwil**. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i waith ymchwil o bob math, p'un a yw'n cynnwys gwrthrychau, sbesimenau neu ddata dynol. Mae pryderon moesegol arbennig yn codi wrth ddefnyddio data dynol a data sy'n ymwneud â sefydliadau; mae hyn yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth a gesglir oddi wrth fodau dynol, byw neu farw, y gellir ei chadw ar ffurf rifiadol, ffisegol, geiriol neu eraill. Mewn unrhyw ymchwil sy'n cynnwys pobl fyw fel cyfranogwyr ymchwil, rhaid i ddiogelwch, hawliau ac urddas y cyfranogwr fod o'r pwys mwyaf. Mae'n ofynnol gan Sefydliadau Ymchwil bod yr holl ymchwil a ariennir yn gyhoeddus sy'n cynnwys pobl fyw yn cael ei hadolygu gan bwyllgor moeseg ymchwil a gyfansoddwyd yn ffurfiol gan y Sefydliad Ymchwil.

- Ym mhob ymchwil, rhaid dilyn y Weithdrefn Adolygu Moesegol. Rhaid i'r sawl sy'n ymgymryd â'r ymchwil gwblhau'r **Ffurflen Cymeradwyo Moeseg Ymchwil**, sydd ar gael ar y Fewnwyd ac wedi'i hatgynhyrchu yn Atodiad 2. Pwrpas y ffurflen hon yw nodi'r prosesau y bydd yr ymchwilydd yn eu dilyn i sicrhau bod y gwaith ymchwil yn cael ei gynnal yn foesegol ac yn unol â'r holl ofynion cyfreithiol a gofynion Amgueddfa Cymru.

Y Pwyllgor Moeseg Ymchwil

Nod gofynion adolygiad moesegol o ymchwil yw dangos bod staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i faterion moesegol sy'n ymwneud â dyluniad eu gwaith ymchwil a'r ffordd y caiff ei gynnal yn y dyfodol, a'u wedi bod yn drylwyr wrth fynd i'r afael ag unrhyw broblemau - gwirioneddol neu bosibl - a allai godi. Felly bydd y system hon yn galluogi staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol i wneud cais am gyllid gan y cyrff hynny sy'n gofyn am adolygiad a chyhoeddiad o'r fath mewn cyfnodolion sydd yn yr un modd yn gofyn am dystiolaeth o adolygiad moesegol. Byddwn yn cefnogi ac yn darparu hyfforddiant i'r holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sy'n weithredol ym maes ymchwil ynghylch materion moesegol ymchwil mewn cyd-destun amgueddfa.

Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn cynnwys y Pennaeth Ymchwil, cyfarwyddwr isadran neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, dau aelod profiadol priodol o'r Bwrdd Ymchwil mewnol ac aelod allanol o Brifysgol yr ydym wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda hi (ar hyn o bryd mae'r rôl hon yn cael ei chyflawni gan gynrychiolydd o Brifysgol Caerdydd).

Cyflwynir y Ffurflenni Cymeradwyo Moeseg Ymchwil wedi'u cwblhau i'w hadolygu i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil, a fydd yn asesu a roddwyd ystyriaeth ddigonol i oblygiadau moesegol yr ymchwil er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Ymarfer hwn. Yn Atodiad 3 ceir diagram llif sy'n cynrychioli'r broses o gael cydsyniad moesegol.

Mae pob pwyllgor moeseg yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan yr aelod o staff i lywio eu penderfyniadau. Cyfrifoldeb yr aelod o staff felly yw sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir.

2. Canllawiau a Pholisïau Presennol

Bydd llawer o'r gwaith ymchwil a wneir gan staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol yn cynnwys staff a phartneriaid allanol, ac efallai y byddant yn defnyddio'r casgliadau.

Mae cyfranogiad staff a phartneriaid allanol yn cael ei lywodraethu gan ystod eang o strategaethau a pholisïau, gan gynnwys y Strategaeth Dysgu ac Ymgysylltu, y Strategaeth Ddehongli, strategaethau adnoddau dynol, y Strategaeth Eiriolaeth, y Strategaeth Cyfathrebu a Marchnata a'r Strategaeth Codi Arian Moesegol. Mae'r defnydd o wrthrychau a sbesimenau o'r casgliadau yn cael ei lywodraethu gan y polisïau amrywiol ar gyfer rheoli casgliadau. Mae'r rhain yn arwain ein harfer fel amgueddfa sydd wedi'i hachredu gan Arts Council England (ACE), sy'n gosod safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer amgueddfeydd y DU.

Cyfrifoldeb yr ymchwilydd, boed yn aelod o staff, yn fyfyrwr neu'n ymchwilydd allanol, yw sicrhau bod ei ymchwil yn gyson â'r strategaethau a'r polisïau hyn bob amser.

Y strategaethau a'r polisïau perthnasol sy'n ymwneud â phobl a sefydliadau yw:

- **Y Polisi Rheoli Casgliadau** (2016, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd), sy'n nodi fframwaith clir ar gyfer rheoli'r casgliadau sy'n ein galluogi i ddiwallu anghenion ein rhaglenni, ein defnyddwyr a'n partneriaid.
- **Y Polisi Datblygu Casgliadau** (2016, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd), sy'n manylu ar yr uchelgais o ran casglu a'r dulliau a fydd yn cael eu mabwysiadu i gasglu eitemau newydd ac i adolygu'r casgliadau presennol dros y blynyddoedd i ddod.
- **Y Polisi ar Fynediad at Gasgliadau a'r Defnydd ohonynt** (2016, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd), sy'n nodi sut y byddwn yn gwneud y casgliadau yn hygyrch ac yn ddefnyddiol i bawb o fewn cyfyngiadau rhesymol adnoddau, cadwraeth a diogelwch.
- **Y Polisi Gofal a Chadwraeth Casgliadau** (2016), sy'n dangos sut y byddwn yn gofalu am y casgliadau gan ddefnyddio cyfuniad o gadwraeth ataliol ac ymyriadol, gyda'r nod o sicrhau cadwraeth a sicrhau'r mynediad gorau posibl.
- **Y Polisi Gwybodaeth Casgliadau** (2016), sy'n nodi sut y byddwn yn cynnal safonau proffesiynol mewn dogfennaeth a gwybodaeth am gasgliadau ac yn cryfhau diogelwch ac atebolrwydd y casgliadau.
- **Y Polisi Gweddillion Dynol** (2016), sy'n nodi sut y byddwn yn caffael, yn gofalu am ac yn sicrhau mynediad at y gweddillion dynol yn ein casgliadau mewn modd sensitif a pharchus. Mae'r polisi hwn yn cael ei lywodraethu gan y Ddeddf Meinweoedd Dynol (2004⁵); mae hefyd yn adlewyrchu'r canllawiau a gynhwysir yn y canllawiau ar gyfer gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd (Guidance for Care of Human Remains in Museums), a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS: 2005).

Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y rhain a phob polisi perthnasol arall, a bod yr holl ymchwil a wnewch yn cydymffurfio'n llawn â hwy.

Darllenwch **god moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd**⁶. Mae'n nodi'r egwyddorion moesegol allweddol a'r camau ategol sydd eu hangen ar staff i sicrhau

⁵ Gweler <https://www.hta.gov.uk/policies/human-tissue-act-2004> (cyrchwyd 09/10/2018).

⁶ Gweler <https://www.museumsassociation.org/download?id=1155827> (cyrchwyd 09/10/2018).

dull moesegol o fynd i'r afael â'u gwaith ac mae'n cefnogi amgueddfeydd i gydnabod a datrys materion a gwrthdaro'n ymwneud â moeseg. Mae ganddo dri chategori o egwyddorion moesegol, pob un â nifer o ganllawiau penodol:

- ymgysylltu â'r cyhoedd a budd y cyhoedd
- stiwardiaeth casgliadau
- uniondeb unigol a sefydliadol.

Mae'r tair egwyddor hon wedi'u cynllunio i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn ymgysylltu'n llawn ac yn foesegol â gwaith amgueddfeydd, bod casgliadau'n cael eu cynnal a'u cadw'n iawn a bod amgueddfeydd yn gweithredu er budd y cyhoedd ym mhob maes o'u gwaith.

Mae cod moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn ymdrin â phob agwedd ar waith amgueddfeydd, nid ymchwil yn unig⁷. O'r herwydd, dylai'r holl staff ei ddarllen a'i ddilyn, nid dim ond y rhai sy'n gwneud ymchwil. Mae'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodir yma yn ategu ac yn ymhelaethu ar dair egwyddor Cymdeithas yr Amgueddfeydd uchod drwy sicrhau bod yr ymrwymadau i uniondeb a moeseg o fewn elfen ymchwil ein gwaith wedi'u nodi mewn modd ffurfiol a manwl, a'u bod yn cydymffurfio â safonau derbyniol cymuned ymchwil ehangach y DU.

Dylai ymchwilwyr hefyd sicrhau bod eu gwaith yn bodloni gofynion cod moeseg Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd (ICOM).

⁷ Mewn perthynas ag ymchwil, mae cod moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn nodi bod yn rhaid i'r holl wybodaeth ac ymchwil a gyflwynir neu a gynhyrchir gan yr amgueddfa fod yn gywir a rhaid cymryd camau i leihau neu gydbwysu gogwydd mewn ymchwil a wneir gan yr amgueddfa.

3. Amcanion Ymchwil

Mae pwrpas ac amcanion ein hymchwil wedi'u nodi yn ein Strategaeth Ymchwil (2018). Prif sbardun ein hymchwil yw ein gweledigaeth - Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau. Mae ymchwil yn ysbrydoli pobl i ddysgu am Gymru mewn ffordd sy'n gyffrous, yn berthnasol ac wedi'i llywio gan y dystiolaeth orau bosibl. Mae'n ein galluogi i chwarae rhan weithredol a gweladwy wrth dynnu sylw at Gymru a'i lle yn y byd, rhannu ei diwylliant cyfoethog a'i hamgylcheddau amrywiol mewn ffordd gyfranogol a chynhwysol, ac - yn y pen draw - wrth newid bywydau.

Mae ymchwil yn cyflawni hyn drwy ddyfnhau ac ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy dulliau cyfrifol, proffesiynol a/neu arbenigol, a thrwy ledaenu canlyniadau drwy gyhoeddi, ymgynghori, cynnal arddangosfeydd/rhaglenni cyhoeddus a chadwraeth ein hasedau treftadaeth.

Dylai ymchwil hefyd fynd i'r afael â'r amcanion canlynol:

- Hyfforddi staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol mewn dulliau ymchwil priodol a safonau ymchwil proffesiynol.
- Hyrwyddo manteision cyhoeddus ymchwil a'i fanteision i Amgueddfa Cymru a'i staff.
- Sicrhau effaith gwaith ymchwil er budd y cyhoedd, gan ystyried yr holl amrywiaeth y mae'r gair 'cyhoeddus' yn ei awgrymu.

4. Gweithio ar Draws Timau

Mae Amgueddfa Cymru yn gymuned amrywiol, ryngddisgyblaethol y mae ei staff, mewn sawl ffordd, yn dibynnu ar ei gilydd ac sydd ag amrywiaeth o ddyletswyddau i'w cyflawni, ar wahân i ymchwil. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod ymddiriedaeth, parch a chefnogaeth o'r ddwy ochr ar draws pob tîm, adran ac is-adran. Mae angen i staff ystyried sut y gall y gwaith ymchwil a wnânt, y dulliau y maent yn eu defnyddio a sut y maent yn lledaenu'r ymchwil effeithio ar unigolion neu dimau eraill ar draws grwpiau ymchwil, adrannau ac isadrannau neu ar Amgueddfa Cymru yn ei chyfanrwydd.

5. Uniondeb mewn Ymchwil: Egwyddorion Craidd

Mae'r egwyddorion hyn yn adlewyrchu'r safonau a nodir yng nghoncordat y DU i gefnogi uniondeb ymchwil (UK Concordat to Support Research Integrity, 2012⁸), sy'n nodi bod dyletswydd ar bawb sy'n ymwneud ag ymchwil i ystyried sut mae'r gwaith y maent yn ei wneud, yn ei gynnal neu'n ei gefnogi yn effeithio ar y gymuned ymchwil ac ar gymdeithas ehangach.

5.1 Rhagoriaeth

⁸ <https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/research-concordat.aspx> (cyrchwyd 10/10/2018).

Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol geisio cyflawni rhagoriaeth yn yr ymchwil a wnânt ac ymdrechu i gynhyrchu a lledaenu gwaith o'r ansawdd uchaf. Mae'r egwyddorion canlynol yn cefnogi'r nod hwn.

5.2 Gonestrwydd ac Uniondeb

Cynnal gonestrwydd ac uniondeb yw'r sylfaen ar gyfer safonau proffesiynol uchel yn y maes ymchwil. Rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol fod yn onest yn eu gweithredoedd eu hunain ac yn eu hymatebion i weithredoedd pobl eraill. Mae hyn yn cynnwys gonestrwydd wrth:

- gyflwyno amcanion, dibenion a chanlyniadau ymchwil
- adrodd ar ddulliau a gweithdrefnau ymchwil
- cynhyrchu a dadansoddi data a gwybodaeth
- defnyddio a chydabod gwaith pobl eraill
- cyfathrebu dehongliadau dilys a sicrhau bod honiadau yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil dilys.

Rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol beidio â chymryd rhan mewn achosion o gamymddwyn na chuddio achosion o'r fath a rhaid iddynt adrodd ar achosion posibl o gamymddwyn yn y ffordd sy'n ofynnol. Ceir gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn mewn perthynas ag ymchwil yn Atodiad 4.

5.3 Bod yn Agored

Rhaid i ddulliau ymchwil, data a chanlyniadau alluogi eraill i graffu arnynt, eu hasesu a'u trafod. Yn amodol ar ystyriaethau cyfrinachedd a gwarchod hawliau eiddo deallusol, rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sicrhau didwylledd yn eu gwaith ac annog y broses o gyfnewid syniadau a gwybodaeth. Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sicrhau tryloywder o ran:

- datgan achosion o wrthdaro buddiannau
- adrodd ar ddulliau casglu data ymchwil yn gywir ac yn llawn
- dadansoddi a dehongli data gyda gonestrwydd ac uniondeb
- cynhyrchu allbynnau ymchwil cymeradwy mewn da bryd
- lledaenu canlyniadau ymchwil yn eang, gan gynnwys rhannu canlyniadau negyddol fel y bo'n briodol
- cyflwyno eu gwaith yn agored i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol eraill, rhanddeiliaid allanol ac i'r cyhoedd.

Rydym yn cefnogi concordat UKRI ar allbynnau a data ymchwil agored⁹, sy'n nodi y dylai'r holl allbynnau a data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus fod ar gael i'w defnyddio gan eraill lle bynnag y bo hynny'n bosibl mewn modd sy'n gyson â fframweithiau a normau cyfreithiol, moesegol, disgyblu a rheoliadol perthnasol, a chan roi sylw dyledus i'r costau cysylltiedig.

⁹ Y Concordat a gellir ei gael yma <https://www.ukri.org/files/legacy/documents/concordatonopenresearchdata-pdf/> (cyrchwyd 09/10/2018).

5.4 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb

Rhaid i'r aelod o staff, myfyriwr neu ymchwilydd allanol unigol ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am sicrhau uniondeb unrhyw waith ymchwil a wneir. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod yr ymchwil yn cydymffurfio â'r holl safonau, polisiau a chanllawiau proffesiynol perthnasol, y gofynion cyfreithiol, moesegol a pholisi sy'n rheoleiddio eu maes penodol a'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon. Cyfeiriwch at Atodiad 5 am ddolenni i wybodaeth bellach yn y meysydd hyn.

Rhaid i'r holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol gymryd camau i sicrhau bod yr holl ymchwil yn cydymffurfio â'r holl strategaethau, polisiau a gweithdrefnau, yn ogystal ag unrhyw gytundebau, telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r project. Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

- y caiff y rhaglen ymchwil ei chynnal fel yn unol â'r cynnig gwreiddiol
- mai dim ond at ddibenion yr ymchwil y defnyddir adnoddau ariannol fel y nodir yn y cynnig gwreiddiol
- bod adroddiadau yn gywir ac yn cael eu cynhyrchu'n brydlon
- bod amodau ynghylch cyhoeddi, allbynnau eraill, rheoli data a pherchnogaeth eiddo deallusol yn cael eu bodloni a'u dilyn.

Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol hefyd ddilyn gofynion ac arweiniad unrhyw gyrff proffesiynol yn eu maes ymchwil, megis Cymdeithas yr Amgueddfeydd, a chyllidwyr allanol.

5.5 Trylwyredd

Mae agwedd drylwyr tuag at ymchwil yn rhan o'r safonau uniondeb proffesiynol y mae'n rhaid i'r holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol gadw atynt, gan ddilyn normau a safonau disgyblu cyffredinol. Rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol roi sylw arbennig i drylwyredd wrth:

- gynhyrchu data a dewis dulliau priodol a'u rhoi ar waith
- cadw at brotocolau y cytunwyd arnynt, e.e. gyda thrydydd partion
- cynhyrchu dadansoddiadau, dehongliadau a chasgliadau o'r ymchwil
- gwirio canlyniadau cyn eu cyhoeddi neu ddulliau eraill o'u lledaenu
- cyfathrebu'r canlyniadau mewn arddull ac i safon sy'n gyson ag allbynnau cydnabyddedig a derbyniol yng nghyd-destun yr amgueddfa a/neu mewn cyhoeddiadau allanol, pa un bynnag sy'n berthnasol.

5.6 Gofal a pharch

Rhaid i'r holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol arfer dyletswydd gofal a pharch tuag at yr holl gyfranogwyr sy'n ymwneud ag ymchwil ac sy'n bynciau ymchwil, gan gynnwys bodau dynol, anifeiliaid, yr amgylchedd, sbesimenau gwyddonol a gwrthrychau diwylliannol. Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol geisio datrys unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag urddas, hawliau, diogelwch a lles yr holl bobl a sefydliadau sy'n ymwneud â'u hymchwil. Rhaid i'r rhai sy'n ymwneud ag ymchwil hefyd ddangos gofal a pharch at stiwardiaeth briodol mewn perthynas ag ymchwil ac ysgolheictod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid mynd i'r afael yn llawn â phob mater yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth a dylid gofalu amdanynt drwy gydol y broses ymchwil (am fanylion pellach am hyn a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gweler Adran 6.4).

6. Ymrwymadau ar gyfer Ymchwil

6.1 Arweinyddiaeth trefniadau rheoli llinell a goruchwyliaeth

Prif Ymchwilydd y project ymchwil neu reolwr llinell yr aelod o staff, neu, yn achos myfyrwyr, goruchwylwr y myfyriwr, sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sydd o dan eu goruchwyliaeth/rheolaeth yn deall ac yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan y Cod Ymarfer hwn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

- bod urddas, hawliau, lles a diogelwch unrhyw gyfranogwyr a sefydliadau ymchwil yn cael eu cynnal
- bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal yn unol â pholisïau a chanllawiau (gan gynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer casgliadau, gweithdrefnau iechyd a diogelwch, polisïau amrywiaeth)
- y ceir cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil, lle bo hynny'n berthnasol (fel uchod), cyn i broject ymchwil newydd ddechrau
- bod y rhai sydd o dan eu goruchwyliaeth yn deall yn llawn ac yn dilyn unrhyw bolisïau cyllidwyr, deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau perthnasol, ac arfer gorau disgyblaeth-benodol sy'n ymwneud â rheoli cofnodion a data ymchwil
- bod yr astudiaeth yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol perthnasol a nodir yn y Cod Ymarfer hwn ac yn neddfwriaeth y DU
- bod ganddynt ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a bod yr ymwybyddiaeth honno yn cael ei rhannu gyda'r rhai sydd o dan eu harweinyddiaeth
- mae pob aelod o'r tîm ymchwil yn gymwys ac yn brofiadol i gyflawni ei rôl gan gynnwys sicrhau bod goruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant digonol wedi'u cynnal a bod staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sy'n gwneud gwaith ymchwil wedi cynnal gwiriadau priodol e.e. gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- bod gweithdrefnau wedi'u cynllunio i gynhyrchu, storio, rheoli a chadw data diogel ac, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyfreithiol, moesegol a masnachol, cynhyrchir Cynllun Rheoli Data i alluogi mynediad at ddata o'r fath pan fydd y project ymchwil wedi'i orffen.
- bod adroddiadau ar gynnydd a chanlyniadau ymchwil yn cael eu cynhyrchu ar amser ac i safon dderbyniol
- bod canfyddiadau ymchwil yn cael eu lledaenu'n brydlon a'u cyfleu fel y bo'n briodol i gyfranogwyr; bod y canlyniadau'n agored i graffu arnynt drwy sianeli academaidd a phroffesiynol safonol a bod data ymchwil yn cael ei gategoreiddio a'i storio'n briodol i alluogi mynediad
- bod cyllid project ac eiddo deallusol yn cael eu llywodraethu gan drefniadau addas ar gyfer eu rheoli'n iawn

- bod yr ymchwilydd yn gyfrifol am nodi ac atal camymddwyn drwy gymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar uniondeb ymchwil sy'n ymwneud ag unrhyw gyhoeddiad
- bod data ymchwil yn parhau i gael ei reoli'n briodol os bydd ymchwilydd yn nhîm y project neu'r myfyriwr sy'n cael ei oruchwylio yn gadael Amgueddfa Cymru
- bod cytundebau/protocolau ffurfiol ynghylch perchnogaeth data yn cael eu trefnu cyn dechrau ar brojectau ymchwil cydweithredol ag Amgueddfa Cymru a sefydliadau allanol.

6.2 Data a chofnodion ymchwil

6.2.1 Beth yw data ymchwil yng nghyd-destun amgueddfeydd?

Mae data ymchwil yn amrywio yn ôl pob disgyblaeth a'i dulliau unigryw. Gallant fod yn feintiol neu'n ansoddol. Maent yn cynnwys yr holl ffynonellau gwybodaeth a gynhyrchir at ddibenion darn penodol o ymchwil. Gall hyn gynnwys gwrthrychau, sbesimenau, darganfyddiadau ac olion archeolegol, cofnodion o arsylwadau (yn ymwneud â phobl, amgylcheddau, safleoedd, adeiladau ac ati), data rhifiadol, cyfweliadau â phobl fyw, samplau o ddeunyddiau ffisegol, data arolwg, mesuriadau corfforol, lluniadau, ffotograffau ac ati.

6.2.2 Rheoli data a chofnodion ymchwil

Mae arfer ymchwil da yn gofyn am ddull effeithiol o reoli data a chofnodion ymchwil. Rhaid i staff, myfyrrwyr ac ymchwilyddyr allanol sicrhau eu bod yn deall ac yn cadw at unrhyw bolisiau cyllidwyr, deddfwriaeth, polisiau a chanllawiau perthnasol ac arfer gorau disgyblaeth-benodol sy'n ymwneud â rheoli data a chofnodion ymchwil.

Rhaid i staff, myfyrrwyr ac ymchwilyddyr allanol sicrhau bod eu data ymchwil yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn fanwl. Cyn dechrau ar broject, rhaid iddynt nodi (e.e. mewn Cynllun Rheoli Data) sut y byddant yn mynd ati i reoli eu data ymchwil a'u cofnodion ar ffurf briodol, drwy gydol yr ymchwil, er mwyn sicrhau bod data'n aros yn ddiogel, yn cadw ei uniondeb a'i ddilysrwydd ac yn parhau i fod yn hygyrch drwy gydol y cyfnod cadw data dynodedig.

Dylid hefyd darparu a chynllunio mynediad at y data ymchwil. Mae'n arfer da (ac yn aml yn ofynnol gan gyllidwyr, e.e. UKRI) i nodi'r darpariaethau hyn mewn Cynllun Rheoli Data sydd wedi'i ddogfennu'n ffurfiol. Dylai hyn adlewyrchu asesiad ystyriol o'r risgiau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a chydymffurfiad cyfreithiol/moesegol mewn perthynas â'u data.

Byddwn, os gallwn ac os byddwn yn barod i wneud yr ymrwymiad hwn cyn dechrau ar y project ymchwil, yn darparu cwota priodol o storfa electronig ddiogel i gefnogi staff, myfyrrwyr ac ymchwilyddyr allanol. Os oes angen lle storio ychwanegol, dylai'r rhai sy'n ymgymryd â'r gwaith ymchwil sicrhau bod hyn ar gael cyn i'r project ddechrau.

6.2.3 Cadw data

Rhaid cadw data ymchwil yn unol â'r gofynion cadw data a nodir yn Atodiad 6, ac unrhyw gyfnodau cadw a bennir gan y corff cyllido.

Mynediad at ddata, cadw data a dogfennaeth

- Pan ddaw unrhyw broiect a ariennir yn gyhoeddus i ben, yn ddarostyngedig i unrhyw ystyriaethau cyfreithiol, cytundebol a moesegol, dylai ymchwilwyr sicrhau bod eu data ar gael yn rhwydd mewn modd amserol a chyfrifol.
- Rhaid i ddata ymchwil gwreiddiol sy'n cefnogi canfyddiadau ymchwil neu a allai fod â defnydd ymchwil yn y dyfodol gael ei adneuo i'w gadw yn Amgueddfa Cymru ac, yn ogystal, lle bo hynny'n ofynnol gan gyrff cyllido, dylid adneuo copïau yn yr archifau cyhoeddus priodol. Bydd data ymchwil yn cael eu hadneuo gyda'r metadata a'r ddogfennaeth briodol er mwyn galluogi i eraill eu hadnabod yn gywir mewn perthynas â'u tarddiad, eu cynnwys a'u cyd-destun.
- Pan gynigir adneuo data yn allanol, ni ddylid cymeradwyo hyn heb gael ein caniatâd ymlaen llaw, na heb gyfyngu ar ein hawl i sicrhau bod y data ar gael yn rhwydd i'w aildefnyddio.

Gadael Amgueddfa Cymru

- Rhaid i staff ac ymchwilwyr allanol sicrhau, cyn cymeradwyo'r broiect ymchwil, a phan fyddant yn gadael, bod darpariaethau priodol yn cael eu gwneud o fewn yr adran berthnasol ar gyfer parhau i gadw, storio a, lle bo hynny'n berthnasol, darparu mynediad i'w data ymchwil, eu cofnodion neu eu samplau ymchwil (dynol neu fel arall). Bydd Pennaeth yr Adran yn cymryd cyfrifoldeb am ddata a chofnodion yr ymchwil.
- Rhaid i fyfyrwyr sy'n gadael sicrhau eu bod yn cadw, yn storio a, lle bo hynny'n briodol, yn darparu mynediad i'w data ymchwil, eu samplau a'u cofnodion gwreiddiol. Bydd goruchwyliwr y myfyriwr a'i Bennaeth/Penaethiaid Adran yn cymryd cyfrifoldeb am ddata a chofnodion ymchwil a adneuwyd yn Amgueddfa Cymru.
- Rhaid i fyfyrwyr gael cyngor a chydsyniad eu goruchwyliwr (os bydd y goruchwyliwr yn allanol yna dylent hefyd gael y cydsyniad ymlaen llaw gan y Pennaeth Ymchwil a'r Pennaeth/Penaethiaid Adran berthnasol) cyn dileu data a chofnodion ymchwil gwreiddiol. Pan fydd y cofnodion yn cynnwys data personol, dylid ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data cyn mynd ag unrhyw rai gwreiddiol neu gopïau (am fanylion cyswllt gweler Atodiad 7).

6.2.4 Deddf Diogelu Data 1998

- Pan fydd staff, myfywrwyr neu ymchwilwyr allanol yn cynhyrchu 'data personol' rhaid iddynt gydymffurfio â thelerau Deddf Diogelu Data 1998. Mae 'data personol' yn wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod person byw.
- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymchwilydd fod â seiliau priodol i'w galluogi i ddefnyddio data personol at ddibenion ymchwil ac mae'n nodi egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso i ddefnyddio, storio a datgelu'r data personol hynny (ymdrinnir â storio data ymchwil yn Adran 6.2. 2).
- Mae'r Ddeddf yn diffinio categori arbennig o ddata personol fel 'sensitif'. Mae hyn yn cynnwys cyflwr iechyd meddwl neu gorfforol unigolion, eu credoau crefyddol, athronyddol neu wleidyddol, aelodaeth undeb llafur, eu cofnod troseddol, eu tarddiad hiliol neu ethnig a manylion eu bywyd rhywiol. Mae defnydd cyfreithlon o'r data hwn wedi'i gyfyngu ymhellach o dan y Ddeddf.

- Bydd nodyn canllaw ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol yn egluro gofynion y Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas ag ymchwil (gan gynnwys cydsyniad dilys a phwy sy'n gymwys i roi cydsyniad dilys) ar gael (gweler Atodiad 8).

6.3 Allbynnau ymchwil

Mae'r Strategaeth Ymchwil yn nodi'r gofynion bod yn rhaid i bob project ymchwil cymeradwy arwain at allbynnau ymchwil cymeradwy, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan ystyried unrhyw ofynion cyfrinachedd ac eiddo deallusol, a pheidio ag aros yn gudd yn y sefydliad.

- Rhaid cynhyrchu'r allbynnau hyn mewn modd sy'n adlewyrchu'r ymchwil yn gywir a heb ddethol mewn ffordd a allai fod yn gamarweiniol.
- Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Ymchwil a Phennaeth/Penaethiaid Adran perthnasol, ac ar yr amod bod y gwaith lledaenu hwn yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau, dylid lledaenu canlyniadau gwaith ymchwil yn eang yn y ffurfiau cymeradwy, a thrwy hynny ganiatáu i amrywiaeth o gynulleidfaedd a chymunedau weld, herio a datblygu canlyniadau ymchwil. Pan adroddir ar yr ymchwil mewn cyhoeddiadau ysgrifenedig dylai'r rhain gynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol eraill ailadrodd y dulliau a ddefnyddiwyd yn wreiddiol.
- Gwerthfawrogir allbynnau ymchwil p'un a ydynt ar ffurf cyhoeddiadau ysgrifenedig neu gyfryngau eraill, gan gynnwys mewn arddangosfeydd cyhoeddus. Yn ogystal ag allbynnau nas cyhoeddwyd, dylid cyhoeddi ymchwil wreiddiol hefyd lle bynnag y bo modd, gan ystyried amodau a bennir gan y corff cyllido a dylid amddiffyn unrhyw eiddo deallusol neu wybodaeth gyfrinachol (cyfeiriwch at Adran 7).
- Lle bo hynny'n bosibl, a lle mae'n gymesur â cham gyrfa'r unigolyn sy'n gwneud yr ymchwil, yn gyntaf dylid cymeradwyo allbwn ymchwil cyhoeddedig gan y Pennaeth Ymchwil a'r Pennaeth/Penaethiaid Adran, a'i adolygu gan gymheiriaid drwy sianeli gwyddonol a phroffesiynol derbyniol.¹⁰
- Dylai ymchwil gyhoeddedig gymeradwy gan staff bob amser gynnwys enw Amgueddfa Cymru ym maes cyfeiriad yr awdur. Yn y rhan fwyaf o achosion dylid sicrhau bod data ategol ar gael a dylai ymchwil gyhoeddedig gynnwys datganiad byr yn amlinellu sut ac ar ba delerau y gellir cyrchu'r data.
- Ni ddylai ymchwilwyr gyhoeddi mwy nag un papur yn seiliedig ar yr un set o ddata (arfer a elwir yn 'gyhoeddi tameidiog'), ac eithrio pan fydd cyfeiriadau a chydabyddiaethau llawn a thrylwyr i'r papur(au) cynharach. Os ydych yn cyflwyno gwaith tebyg i fwy nag un cyhoeddwr rhaid i bob cyhoeddwr fod yn ymwybodol o hyn adeg ei gyflwyno.
- Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i lwybrau ar gyfer galluogi staff i adneuo testun llawn fersiwn derfynol yr awdur ('ôl-brint'), a adolygwyd gan gymheiriaid, ac sy'n cyhoeddi trafodion cynhadledd mewn ystorfa sefydliadol, na fydd fel arfer yn hwyrach na thri mis ar ôl ei gyhoeddi. Pan fydd caniatâd

¹⁰ Eithriad i'r rheol safonol o gyhoeddi'n gyntaf drwy sianel gydnabyddedig fyddai pan fydd materion iechyd a diogelwch y cyhoedd yn gysylltiedig â'r ymchwil. Byddai diogelwch y cyhoedd yn cael blaenoriaeth yn yr achosion hyn.

hawlfraint cyhoeddwy yn caniatáu, ac nad oes unrhyw gyfrinachedd na chyfyngiadau masnachol, bydd Mynediad Agored i'r fersiynau hyn, yn unol â gofynion ymchwil a ariennir yn gyhoeddus.

Diffiniad o 'awdur'

Awduriaeth yw'r prif fodd o ddsrannu clod ar gyfer canfyddiadau ymchwil. Er nad oes diffiniad o awdur a dderbynnir yn gyffredinol, mae rhestru unigolyn fel awdur yn enghraifft o arfer academaidd safonol da ar yr amod bod yr unigolyn hwnnw wedi gwneud **cyfraniad deallusol sylweddol** at greu'r allbwn ac wedi cytuno i fod yn atebol am ganfyddiadau, uniondeb a moeseg y gwaith ymchwil dan sylw.

Felly awdur yw rhywun sydd wedi cael cyfrannu'n sylweddol at greu a dilysu'r allbwn ymchwil dan sylw. Mae hyn yn cynnwys:

1. cyfrannu'n sylweddol at y project a'i ddyluniad ymchwil NEU ddadansoddi/dehongli data ymchwil, A
2. drafftio'r cyhoeddiad, neu adolygu'r cynnwys i'r graddau nes bod cyfraniad sylweddol at ei werth yn cael ei wneud A
3. cymeradwyo fersiwn derfynol yr allbwn i'w gyhoeddi.

Dylai pawb sy'n bodloni'r meini prawf hyn gael eu rhestru fel awduron. Dylai pawb sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y project fel y nodir ym mhwyntf 1. hefyd gael cyfle i fod yn rhan o gamau 2. a 3., h.y. drafftio a diwygio'r cynnwys a chymeradwyo'r fersiwn derfynol.

Yn ogystal, dylid nodi:

- Nid yw helpu project i gael ei ariannu, cynorthwyo gyda chynhyrchu data neu oruchwylio tîm ymchwil yn ddigon i ennill clod fel awdur. Dylid cydnabod cyfraniadau o'r fath yn y testun, ond nid fel awduron. Nid yw'r arfer o awduraeth anrhydeddus yn dderbyniol.
- Dylai cyfraniadau unigol pob awdur at yr allbwn fod yn rhai y gellir eu hadnabod fel rhai'r awduron er mwyn sicrhau y gall awduron fod yn gyfrifol am uniondeb eu cyfraniad.
- Dylai pob awdur, gyda'i gilydd, fod yn gyfrifol am ganfyddiadau'r ymchwil: tybir bod unrhyw berson a restrir fel cyd-awdur ar gyhoeddiad yn cefnogi pob agwedd ar yr allbwn hwnnw.
- Ym mhob agwedd ar ymchwil, rhaid i awduron gydnabod rolau a chyfraniadau cydweithwyr a chefnogwyr eraill y gwaith nad ydynt yn gymwys i gael eu galw'n awduron. Mae hyn yn ymestyn i briodoli cydnabyddiaeth i'r corff sy'n ariannu'r project, os bydd yn briodol gwneud hynny, sy'n aml yn un o ofynion cyllido.
- Mae methu â chydabod yn briodol yr holl gyfraniadau uniongyrchol neu anuniongyrchol a wneir gan bobl eraill, gan gynnwys data a samplau gan drydydd partiön, yn ymddygiad amhroffesiynol a gallai fod yn achos o gamymddwyn mewn perthynas ag ymchwil academaidd.

6.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sy'n gwneud gwaith ymchwil yn Amgueddfa Cymru gydnabod dyletswyddau penodol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn

ofynnol i ni fel corff cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac ymdrechu i sicrhau nad oes unrhyw un dan anfantais anghyfreithlon oherwydd y ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol gadw at y Ddeddf Cydraddoldeb a pholisïau a chanllawiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Yn ogystal â'r uchod, mae UKRI yn disgwyl i'r rhai sy'n derbyn cyllid y Cyngor Ymchwil:

- hyrwyddo ac arwain newid diwylliannol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth
- ennyn diddordeb staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol ar bob lefel i wella'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu ymchwil yn cael ei hyfforddi a'i gefnogi i fynd i'r afael â diffyg cymhellion a rhwystrau anuniongyrchol i recriwtio, cadw a dilyniant mewn gyrfaedd ymchwil.
- darparu tystiolaeth o'r ffordd y caiff materion cydraddoldeb ac amrywiaeth eu rheoli ar lefel sefydliadol ac adrannol.

At hynny, rhaid i'r rhai sydd mewn swyddi arweinyddiaeth gynnal ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a rhannu'r wybodaeth honno gyda'r rhai sydd o dan eu harweiniad.

6.5 Camymddwyn mewn perthynas ag ymchwil

Disgwylir i ymchwilwyr ddeall bod y canlynol yn achosion o gamymddwyn ac y bydd cosbau yn cael eu gweithredu yn unol â gweithdrefnau disgyblu a chanllawiau moesegol:

- Llên-ladrad, twyll, dwyn syniadau eraill heb gydnabyddiaeth ddyledus, neu ffugio neu anwirio canlyniadau, gan gynnwys hepgor rhag dadansoddi a chyhoeddi data anghyfleus.
- Camliwio ymchwil: mae hyn yn cynnwys:
 - camliwio data, er enghraifft atal canfyddiadau a/neu ddata perthnasol, gan gyflwyno dehongliad gwallus o ddata a hynny'n fwriadol, yn ddi-hid neu drwy esgeulustod dybryd,
 - dyblygu cyhoeddiad heb ddatgelu hynny, gan gynnwys dyblygu cyflwyno llawysgrifau heb eu datgelu i'w cyhoeddi
 - camliwio buddiannau, gan gynnwys methu â datgan buddiannau materol naill ai gan yr ymchwilydd neu gyllidwyr yr ymchwil
 - camliwio cymwysterau a/neu brofiad, gan gynnwys hawlio neu awgrymu cymwysterau neu brofiad nad oes ganddynt
 - camliwio cyfranogiad, fel hawliadau amhriodol i awduriaeth a/neu briodoli gwaith na wnaed unrhyw gyfraniad sylweddol ato, neu wadu awduriaeth lle mae awdur wedi gwneud cyfraniad sylweddol
 - achosion eraill o fynd yn groes i'r Cod Ymarfer hwn.
- Achosion o wrthdaro buddiannau sy'n parhau i fod heb eu datgelu. Rhaid datgelu'r rhain yn ysgrifenedig, fel y nodwyd yn Adran 8 isod, a dylid eu cyflwyno gydag unrhyw gynnig ymchwil newydd a gyflwynir i'w gymeradwyo i'r Bwrdd Ymchwil, a fydd yn penderfynu pa gamau i'w hargymell i'r Uwch Dîm

Rheoli. Gall gwrthdaro o'r fath gynnwys rhai sydd o natur gyfreithiol, moesegol, moesol, ariannol, personol, academaidd neu o natur arall.

Mae'n ofynnol i ymchwilwyr (boed yn staff, yn fyfyrwyr neu'n ymchwilwyr allanol) hysbysu'r Pennaeth ymchwil am achosion o gamymddwyn a amheuir, a dylid gwneud hynny mewn modd cyfrifol a phriodol. Bydd pob adroddiad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol, yn unol â'n Polisi Chwythu'r Chwiban. Mae canllawiau cyffredinol (ar gyfer ymchwilwyr ar bob lefel) ar osgoi llên-ladrad ac anonestrwydd academaidd ar gael ar wefan UKRI a hefyd gan y Pennaeth Ymchwil.

7. Eiddo Deallusol

Mae eiddo deallusol yn gynnyrch meddwl, creadigrwydd ac ymdrech ddeallusol. Yn ystod eu gwaith ymchwil neu ymgynghori, mae staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol yn aml yn cynhyrchu eiddo deallusol (e.e. darganfyddiadau technegol a dulliau newydd, lluniadau a dyluniadau gwreiddiol, canlyniadau arbrolfol, darnau o ryddiaith a gweithiau celf). Rydym yn gwerthfawrogi creadigrwydd staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sy'n ymgymryd ag ymchwil ac yn eu hannog i chwarae rhan weithredol yn eu proffesiynau drwy weithgareddau megis cynadleddau a chyhoeddi academaidd. Nid peidio ag annog gweithgaredd o'r fath a wneir yn yr adran hon, ond yn hytrach creu fframwaith tryloyw a theg ar ei gyfer.

Masnacheiddio eiddo deallusol

Mae cyrff cyllido yn disgwyl i Sefydliadau Ymchwil fasnacheiddio eiddo deallusol sy'n deillio o waith ymchwil y maent wedi'i hariannu. Mae'n bwysig felly bod eiddo deallusol a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru, neu sy'n defnyddio adnoddau Amgueddfa Cymru, yn cael ei ddefnyddio'n fasnachol, lle bo hynny'n briodol, er budd uniongyrchol Amgueddfa Cymru, er mwyn:

- lluosogi canfyddiadau ymchwil a helpu i wireddu eu gwerth mwyaf posibl
- cynorthwyo ffyniant economaidd lleol a chenedlaethol
- cynhyrchu incwm ychwanegol i Amgueddfa Cymru a staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol
- ennill bri i Amgueddfa Cymru.

Ni fydd gan y mwyafrif o eiddo deallusol a gynhyrchir yn ystod ymchwil werth masnachol uniongyrchol neu amlwg. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried sut y gallai gwerth masnachol gael ei greu yn y dyfodol gan eraill sydd â mynediad i'r ymchwil, er nad oes unrhyw sicrwydd o enillion ariannol yn sgil masnacheiddio eiddo deallusol. Ar y cyfle cyntaf, dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol ddwyn i sylw'r Pennaeth Ymchwil unrhyw eiddo deallusol a allai fod â gwerth masnachol posibl.

7.1 Perchnogaeth eiddo deallusol a hawliau eraill

- Mae Amgueddfa Cymru yn berchen ar hawliau helaeth gan gynnwys Hawliau Eiddo Deallusol a digidol. Oni bai ein bod wedi cytuno'n benodol, ac yn ysgrifenedig, cyn dechrau'r gwaith ymchwil i ganiatáu i'r ymchwilydd ddefnyddio ein Heiddo Deallusol neu hawliau eraill, mae unrhyw ymchwil a

gynhelir ar ein gwaith, neu'r defnydd o'n hadnoddau, yn eiddo i Amgueddfa Cymru. Mae hyn yn berthnasol i ymchwil gan staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol. Mae Hawliau Eiddo Deallusol a gynhyrchir drwy weithgareddau ymchwil a gynhelir gan staff yn ystod eu cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru a/neu sy'n defnyddio adnoddau Amgueddfa Cymru yn perthyn i Amgueddfa Cymru. Mae hawlfraint yn un math o Hawl Eiddo Deallusol. At ddibenion cyhoeddi, byddwn fel arfer yn caniatáu i aelod o staff gyhoeddi unrhyw waith y mae wedi'i ysgrifennu yn ystod ei gyflogaeth yn Amgueddfa Cymru a/eu ddefnyddio adnoddau Amgueddfa Cymru, mewn cyhoeddiad academaidd, anfasnachol (un na chodir tâl amdano), ar yr amod ein bod ni, drwy'r Pennaeth Ymchwil, yn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r hawliau i Eiddo Deallusol o'r fath. Bydd yr un egwyddor yn berthnasol o ran defnyddio unrhyw ymchwil a wneir gan fyfyrwyr ac ymchwilwyr allanol sy'n defnyddio ein hadnoddau, y mae gennym hawliau ar eu cyfer.

- Ar gyfer cyhoeddiadau anacademaidd gan staff sydd/a allai fod â gwerth masnachol, os cyhoeddir yr allbwn gan gyhoeddwr allanol, byddwn yn cadw'r hawlfraint a'r Hawl Eiddo Deallusol. Mae gan y cyhoeddwr allanol hawlfraint ar fformat y cyhoeddiad. Rhaid i'r Panel Cyhoeddi gymeradwyo pob trefniant o'r fath, cyn cytuno i'w gyhoeddi.
- Bydd staff sy'n creu gwaith ymchwil ar y cyd â thrydydd partïon yn sicrhau bod yr Hawl Eiddo Deallusol yn cael ei aseinio i Amgueddfa Cymru mewn cytundeb ysgrifenedig. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd angen cymeradwyaeth ysgrifenedig y Cyfarwyddwr Masnachol, a rhaid i'r aelod staff sicrhau y cytunir ar drwydded i ni aildefnyddio canlyniadau'r ymchwil at bob pwrpas.
- Ystyrir bod gan fyfyrwyr israddedig, myfyrwyr ôl-raddedig a gwirfoddolwyr ar leoliad yr un statws at y dibenion hyn â staff ac, o dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn berchen ar yr Eiddo Deallusol am y gwaith a wnaethant, ac eithrio'r gwaith y maent yn llwyr gyfrifol amdano ac a gafodd ei greu heb ddefnyddio ein hadnoddau.
- Os bydd aelod o staff wedi cyfrannu **yn ganolog** at ganlyniadau'r myfyriwr (e.e. dod â'u dadansoddiad a'u canlyniadau gwreiddiol eu hunain i'r project), yn hytrach na dim ond chwarae'r rôl oruchwylio safonol o hwyluso mynediad a rhoi cyngor ac arweiniad, bydd yr eiddo deallusol yn eiddo ar y cyd (yn ôl y dosraniad priodol e.e. 80% -20%).
- Bydd yr hawlfraint i draethawd ymchwil myfyriwr, ac eithrio unrhyw elfennau ble mae'r hawliau'n eiddo i ni, bob amser yn eiddo i'r myfyriwr.
- Os bydd ymchwilydd allanol yn cael ei dalu neu ei gontractio gan, neu ei secondio i, Amgueddfa Cymru, mae'r gwaith ymchwil y mae'n ei wneud ar Amgueddfa Cymru, y casgliadau neu ein gwaith, yn perthyn i Amgueddfa Cymru.
- Os bydd ymchwilydd allanol yn cael ei gyflogi gan brifysgol neu gyflogwr arall a bod ganddo arian ei hun, ac nad yw'n cael ei dalu na'i gontractio gan

Amgueddfa Cymru, na'i secondio i Amgueddfa Cymru, i wneud yr ymchwil, mae'r eiddo deallusol yn perthyn i'w prifysgol neu gyflogwr (ac eithrio lle mae aelod o mae staff wedi cyfrannu'n ganolog at y canlyniadau, fel uchod, neu lle mae ei waith yn defnyddio eiddo deallusol Amgueddfa Cymru a/neu hawliau eraill). Yn yr achos olaf, Amgueddfa Cymru a chyflogwr yr ymchwilydd fydd yn berchen ar yr eiddo deallusol a bydd cytundeb yn cael ei lunio, cyn i'r ymchwil ddechrau rhwng Amgueddfa Cymru a'r cyflogwr i roi trwydded i Amgueddfa Cymru ddefnyddio'r canlyniadau a gynhrychir gan y project at ddibenion anfasnachol. Byddai angen i Amgueddfa Cymru a/neu gyflogwr yr ymchwilydd gytuno ar unrhyw fasnacheiddio dilynol mewn perthynas â chanlyniadau gan Amgueddfa Cymru a chyflogwr yr ymchwilydd.

- Yn ôl y gyfraith, mae'r holl ddata a gynhrychir gan weithwyr yn ystod eu cyflogaeth yn eiddo i'w cyflogwr, felly mae'r data neu'r eiddo deallusol a grëwyd gan staff (gan gynnwys cyhoeddiadau) yn parhau i gael eu cadw gan Amgueddfa Cymru, hyd yn oed os bydd yr awdur yn symud i sefydliad arall.
- Os bydd ymchwilydd allanol a gyflogir gan brifysgol yn cael ei gomisiynu/contractio i wneud project a bod ei gyflog a/neu dreuliau'n cael eu talu'n llawn neu'n rhannol gan Amgueddfa Cymru (e.e. o gyllidebau craidd, cronfeydd allanol ac ati), mae'r eiddo deallusol y mae'n ei greu yn perthyn i Amgueddfa Cymru.

7.2 Diogelu eiddo deallusol

Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilydd allanol ddiogelu eu buddiannau eu hunain, rhai Amgueddfa Cymru a rhai unrhyw gyllidwr neu gorff sy'n cydweithredu mewn perthynas ag eiddo deallusol. Yn y rhan fwyaf o wledydd y byd, bydd datgelu ymlaen llaw yn annilysu unrhyw gais am batent ac yn niweidio buddiannau masnachol posibl. Rhaid i staff, myfyrwyr ac ymchwilydd allanol, felly, beidio â datgelu syniad i unrhyw barti nad yw'n cael ei gyflogi gan Amgueddfa Cymru, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, nes bod camau wedi'u cymryd i amddiffyn yr eiddo deallusol. Ar ôl sicrhau'r diogelwch priodol, yna gellir cyhoeddi'r syniad neu'r canlyniadau yn y ffordd arferol.

8. Gwrthdaro Buddiannau

Gwrthdaro buddiannau yw gwrthdaro rhwng buddiannau preifat a chyfrifoldebau swyddogol unigolyn mewn swydd gyfrifol. Yr aelod unigol o staff, y myfyriwr a'r ymchwilydd allanol unigol sy'n gyfrifol am reoli achosion o wrthdaro buddiannau. Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilydd allanol gydnabod y gallai achosion o wrthdaro buddiannau gael effaith negyddol ar ymchwil.

Dylid nodi a datgan pob achos o wrthdaro buddiannau a mynd i'r afael â hwy, boed yn achosion gwirioneddol neu bosibl, cyn gynted ag y daw'n amlwg. Mae pob unigolyn sy'n ymwneud â gwaith ymchwil yn gyfrifol am nodi a datgan achosion o wrthdaro buddiannau. Dylai staff, myfyrwyr ac ymchwilydd allanol gydymffurfio â'r

polisi ar gyfer mynd i'r afael ag achosion o gwrthdaro buddiannau, yn ogystal ag unrhyw ofynion allanol sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau.

Gall achosion o wrthdaro buddiannau hefyd godi mewn perthynas â sefydliad sy'n cynnal ymchwil gydag, o fewn neu yn Amgueddfa Cymru. Felly mae'n bwysig cydnabod efallai na fydd achosion o wrthdaro buddiannau wedi'u cyfyngu i lefel unigol, bersonol.

Rhaid datgelu pob achos o wrthdaro buddiannau, yn ysgrifenedig, i'r Pennaeth Ymchwil (gyda chopi i'r Pennaeth/Penaethiaid Adran(nau) dan sylw). Bydd ymateb y Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn cael ei gyfleu i'r ymchwilydd yn ysgrifenedig a'i gofnodi ar ffeil. Yna bydd yr unigolyn dan sylw yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd ysgrifenedig hwn.

9. Gwrth-lwgrwobrwo a Gwrth-lygredd

Mae gennym bolisi dim goddefgarwch tuag at unrhyw ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ymchwil a allai fod yn gyfystyr â llwgrwobrwo a llygredd. Mae Amgueddfa Cymru, ein staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr allanol wedi ymrwmo i ymddwyn yn broffesiynol, yn deg a chyda gonestrwydd, gan sicrhau bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal mewn modd agored, moesegol a thryloyw.

10. Datganiad i Gloi

Nod y Cod Ymarfer hwn yw gwella'r diwylliant ymchwil proffesiynol, agored a gonest sydd eisoes i'w weld yn Amgueddfa Cymru, gan osgoi llesteirio'r gwaith pwysig o fynd ar drywydd mwy o wybodaeth a dealltwriaeth.

Rhaid cydymffurfio â'r holl safonau allanol sy'n berthnasol i'r gwaith ymchwil ac unrhyw ofynion rhanddeiliaid perthnasol yn ogystal â chyfraith gwlad a rhwymedigaethau statudol.

Diolchiadau

Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar y sefydliadau canlynol am gynhyrchu agweddau ar y Cod Ymarfer hwn:

Prifysgol Caerdydd

Cod Ymarfer Gonestrwydd Gwaith
Ymchwil a'l Lywodraethu

UKRI

UKRI Policy and Code of Conduct on the
Governance of Good Research Conduct

NISCHR

Research Governance Framework for
Health and Social Care in Wales

Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU

Code of Practice for Research:
Promoting Good Practice and Preventing
Misconduct

Prifysgolion y DU

The Concordat to Support Research
Integrity